**Vaughan Gething AC/AM**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon**
**Cabinet Secretary for Health, Well-being and Sport**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref MA(P)VG/3145/17

Lynne Neagle AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

2 Hydref 2017

Annwyl Lynne,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 8 Medi ynghylch eich ymchwiliad i iechyd emosiynol ac iechyd meddwl plant a phobl ifanc. Hoffwn wneud y sylwadau canlynol mewn ymateb i'ch cwestiynau.

Fel y gwyddoch, mae'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG) yn arwain y rhaglen Law yn Llaw at Blant a Phobl Ifanc ac mae swyddogion Llywodraeth Cymru yn ymwneud â'r Rhaglen, ond nid ydynt yn rheoli'r Rhaglen. Rwyf ar ddeall bod y Bwrdd Rhaglen wedi cytuno yn ddiweddar y dylai'r Rhaglen redeg tan ddiwedd 2018-19. Erbyn diwedd y cyfnod hwnnw, rwy'n disgwyl y bydd y Bwrdd Rhaglen wedi ystyried pa drefniadau etifeddol, os oes rhai, sydd eu hangen i sicrhau bod y gwelliannau wedi eu hymgorffori'n llwyr a'u bod yn gynaliadwy ar draws gwaith y sefydliad.

O ran yr ail gwestiwn am y cyfrifoldeb dros CAMHS, fel y gwyddoch, mae gwasanaethau'r GIG yn gyfrifoldeb sy'n dod o fewn fy mhortffolio i. Fodd bynnag, o gofio bod awtistiaeth yn rhan o gylch gwaith Gweinidog Iechyd y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymdeithasol, mae ganddi hithau hefyd ddiddordeb yn y maes. Yn fwy cyffredinol, mae gan unrhyw weithiwr proffesiynol neu asiantaeth sydd yn dod i gysylltiad â phlentyn, rôl i gyfrannu at lesiant emosiynol a meddyliol y plentyn hwnnw. Dyna pam mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo'n llwyr i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. I'r perwyl hwnnw, cyfrifoldeb Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg yw hybu iechyd a llesiant emosiynol mewn ysgolion, drwy ddiwygio'r cwricwlwm, cwnsela mewn ysgolion a gofal bugeiliol, a thrwy ddulliau seicoleg addysgol ac anghenion dysgu ychwanegol. Yn ddiweddar, wrth gwrs, cyhoeddodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg fenter ar y cyd â mi i dreialu sut y gellir cryfhau llesiant ac iechyd meddwl mewn ysgolion. Mae cyllid newydd o £1.4m y tu cefn i'r fenter hon.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru
Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales


Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Hefyd, mae gan Weinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes gyfrifoldeb dros Bolisi Gwaith Ieuenctid a gwasanaethau ieuenctid, sy’n annog pobl ifanc i gyrraedd eu potensial llawn Mae gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant gyfrifoldeb dros sicrhau bod plant, eu anghenion a’u hawliau, yn greiddiol i ddatblygiad polisi a chyflenwi gwasanaethau, ac mae ganddo rôl benodol mewn perthynas ag anghenion plant o dan amgylchiadau penodol, megis plant sy’n derbyn gofal a sipsiwn, teithwyr a cheiswyr lloches.

O ran rheoli’r cyfrifoldebau hyn ar draws y portffolios, rwy’n cael trafodaethau cyson gyda’m cyd-aelodau yn y Cabinet a’m cyd-Weinidogion, yn ffurfiol ac yn anffurfiol er mwyn trafod y materion sydd yn gyffredin i’n cylchoedd gwaith. Mae’n swyddogion yn cynnal trafodaethau cyson ac mae nifer o fforymau’n bodoli er mwyn rannu gwybodaeth a llywio datblygiadau polisi.

Yn gywir,



**Vaughan Gething AC**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon
Cabinet Secretary for Health, Well-being and Sport